**LC310**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **DRAFFT**

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT** **DRAFT**

**Gorchymyn Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diwygio adran 26(1) (Etholiadau cynghorwyr) ac adran 35(2) (Cynghorwyr cymuned) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn gohirio etholiadau cynghorwyr i bob cyngor sir, pob cyngor bwrdeistref sirol a phob cyngor cymuned yng Nghymru am flwyddyn. Caiff yr etholiadau eu cynnal yn 2004 a phob pedair blynedd wedyn.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nodwyd mai 'Gorchymyn Etholiadau Lleol (Cymru) 2001' yw'r teitl yn y testun Cymraeg (yn y penawdau ac yn erthygl 1(1)). Credir y dylai'r teitl ddarllen 'Gorchymyn Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2001'. Dyna fyddai'n cyd-fynd â'r teitl yn y testun Saesneg, gan adlewyrchu'r ffaith hefyd mai ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol y mae'r gorchymyn.

Gellir cywiro hyn drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Cyhyd ag y gwneir y cywiriad angenrheidiol, ni fydd dim materion y bydd angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

Mae'r rheoliadau hyn wedi'u hystyried gan y Cwnsleriaid Seneddol oherwydd eu heffaith ar ddeddfwriaeth sylfaenol. Y bwriad yn wreiddiol oedd darparu bod adran 26(1) a 35(2) o Ddeddf 1972 yn gymwys "fel pe bai" yr addasiadau angenrheidiol wedi'u gwneud, ond mae'r Cwnsleriaid Seneddol wedi dehongli'r pŵer galluogi fel pe bai'n ddigon eang i ganiatáu i destun Deddf 1972 ei hun gael ei ddiwygio. Gan y bydd i'r newid effaith barhaol

ar amseru cynnal etholiadau yn y dyfodol felly, cyngor y Cwnsleriaid oedd y byddai'n well diwygio'r adrannau yn barhaol yn hytrach na nodi addasiadau anhestunol.

**D H DAVIES**
Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol
Y Pwyllgor Deddfau

Cyf: LAD 01-01-343

28 Mehefin 2001